

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Penarth Dental Healthcare /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 1 Gorffennaf
2019

Dyddiad cyhoeddi: 2 Hydref 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	What we did	5
2.	Summary of our inspection.....	6
3.	What we found	8
	Quality of patient experience	9
	Delivery of safe and effective care	15
	Quality of management and leadership	25
4.	What next?	28
5.	How we inspect dental practices	30
	Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection	31
	Appendix B – Immediate improvement plan	32
	Appendix C – Improvement plan	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Penarth Dental Healthcare yn 5 Andrews Buildings, Ffordd Stanwell, Penarth CF64 2AA, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 1 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, sef un a oedd yn arwain yr arolygiad ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017¹, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹ Cyfeirir at Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel 'y rheoliadau' drwy weddill yr adroddiad hwn.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Penarth Dental Healthcare yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o gleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd cofnodion y cleifion o safon uchel
- Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o'r gofal a'r driniaeth a gafwyd yn y practis
- Roedd y practis yn ymrwymedig i wella canlyniadau a gofal y cleifion yn barhaus
- Roedd cyfleusterau addas ar gael i'r staff newid a storio eu heiddo'n ddiogel
- Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r arferion clinigol yn addas at y diben.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi rhagor o wybodaeth i'r cleifion am y ffordd orau i sicrhau hylendid da yn y geg i blant ac oedolion
- Rhaid i'r swyddog diogelwch tân ymgymryd â hyfforddiant gan arbenigwr diogelwch tân
- Gwneud addasiadau i'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau sydd ar waith yn y practis

- Darparu bin cewynnau babanod a sicrhau y caiff y gwastraff ei waredu'n briodol
- Darparu hyfforddiant i'r staff ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed
- Mae angen storio cyflenwadau deintyddol nas defnyddir mewn cwpwrdd mwy diogel
- Gwneud addasiadau i'r trefniadau ar gyfer storio a defnyddio'r cyffuriau a'r cyfarpar sydd ar gael yn y practis i'w defnyddio mewn argyfwng yn ddiogel.

Wrth gynnal yr arolygiad hwn, nodwyd achosion o dorri'r rheoliadau gennym - ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r person cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os na fydd yn gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Penarth Dental Healthcare yn darparu gwasanaethau i gleifion ym Mhenarth a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol a rheolwr y dderbynfa.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd gan Penarth Dental Healthcare brosesau addas ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd pob ardal yn y practis ar y llawr daear ac yn hygyrch i bawb, gan gynnwys unrhyw un ag anawsterau symudedd.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff urddas a pharch y cleifion eu hamddiffyn yn well pan fyddant yn cael triniaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 27 o holiaduron. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Roedd bob amser ofn arnaf fynd at y deintydd. Mae fy ofnau a'm pryderon bellach wedi diflannu!"

"Bu'r gofal yma yn wych. Mae pob aelod o'r staff wedi fy helpu i wella fy iechyd"

"Gwasanaeth ardderchog, bob amser yn hawdd siarad â'r staff, bob amser yn esbonio'n fanwl"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu; ymysg sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

"Diffyg preifatrwydd gan fod y brif ystafell driniaeth yn agos iawn at yr ardal aros. Dim seinglosio"

"Darparu mwy o gyfleoedd GIG"

Ni allaf feddwl am unrhyw beth. Cynlluniau talu ar gyfer triniaethau drud efallai"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Fodd bynnag, byddem yn argymhell hefyd y dylid sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig am sicrhau hylendid da yn y geg i blant ac oedolion hefyd ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw. Roedd amrywiaeth o daflenni eraill, gan gynnwys gwybodaeth am driniaethau preifat a rhoi'r gorau i smygu, eisoes ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddarparu amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig i'r cleifion am y ffordd orau i blant ac oedolion sicrhau hylendid da yn y geg, gan gynnwys taflenni am driniaethau a chyngor ataliol.

Gofal gydag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ond parchus a phroffesiynol. Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Roedd polisi cyfrinachedd a chod ymarfer diogelu data cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran sicrhau preifatrwydd cleifion. Gwelsom fod desg y dderbynfa a'r ardal aros yn agos iawn at ei gilydd, ond cadarnhaodd y staff y byddai sgyrsiau preifat â chleifion yn cael eu cynnal yn un o'r deintyddfeydd pe byddai angen.

Er bod y staff yn cau drws y ddeintyddfa yn ystod apwyntiadau, roeddem yn gallu gweld cleifion yn cael triniaeth gan y deintydd drwy banel gwydr tryloyw yn rhan uchaf y drws. Roedd gan ddrws y ddeintyddfa a ddefnyddiwyd gan yr hylenydd banel gwydr tryloyw tebyg yn y rhan uchaf hefyd.

Argymhellwn y dylid gorchuddio'r paneli gwydr tryloyw yn rhan uchaf y drws neu y dylid gosod deunydd nad yw'n dryloyw yn eu lle er mwyn rhoi preifatrwydd i gleifion yn ystod triniaethau.

Roedd y Naw Egwyddor² a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff y paneli gwydr tryloyw yn rhan uchaf y ddau ddrws i'r deintyddfeydd eu gorchuddio neu y caiff deunydd nad yw'n dryloyw ei osod yn eu lle.

Gwybodaeth i gleifion

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Gwelsom fod rhestr prisiau ar gyfer triniaethau preifat a thaliadau ar gyfer deintyddiaeth y GIG wedi'i harddangos i gleifion yn yr ardal aros, a chadarnhaodd y cleifion eu bod yn cael gwybod am y costau cysylltiedig cyn cael unrhyw driniaeth.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn ardal aros y practis, a gwelsom eu bod yn cynnwys y wybodaeth a ddynodir gan y Rheoliadau. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod ffolder gwybodaeth i gleifion, a oedd hefyd ar gael i gleifion yn yr ardal aros, yn cynnwys hen fersiwn o'r daflen wybodaeth i gleifion. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis dynnu'r hen fersiwn allan o'r ffolder a rhoi copi o'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion yn eu lle.

² Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Roedd y ffolder gwybodaeth i gleifion yn cynnwys copi o'r datganiad o ddiben³, a oedd hefyd yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

Mae gan y practis wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am dîm y practis a'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir ganddo. Argymhellwyd y dylid sicrhau bod copi o'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael ar wefan y practis yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom fod oriau agor y practis wedi'u harddangos ar ddrws ffrynt y practis a bod enwau a chymwysterau perthnasol y tîm deintyddol wedi'u harddangos yn yr ardal aros yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod copi o'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael i'r cleifion ar ei wefan.

Cyfathrebu'n effeithiol

Nid oedd y practis yn gweithredu gwasanaeth dwyieithog. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o'r wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd i gleifion gael triniaeth ddeintyddol am ddim gan y GIG.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gofal priodol ac yn neilltuo digon o amser i sicrhau eu bod yn deall anghenion cleifion nad Saesneg oedd eu mamiaith. Dywedodd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Yng nghofnodion y cleifion, gwelsom dystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig a oedd yn cynnwys nodiadau am y costau a'r opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Roedd hyn yn unol ag arfer gorau ac yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur

³ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiad wrth gyrraedd, neu cyn gynted â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen gofal brys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod. Caiff cleifion y mae angen gofal brys arnynt y tu allan i oriau eu cyfeirio at y gwasanaethau deintyddol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; gwelsom fod gwybodaeth yn rhoi gwybod i gleifion sut y gallant gael gafael ar driniaeth y tu allan i oriau wedi'i harddangos ar ddrws y brif fynedfa a bod y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion a nodwyd gennym eu bod o safon uchel ac yn helpu'r practis i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth, a gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi'n briodol fel sy'n ofynnol gan ganllawiau proffesiynol.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis.

Hawliau pobl

Nid oedd gan y practis faes parcio, ond roedd lle i barcio ar y strydoedd gerllaw. Roedd pobl ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad i'r practis o'r stryd. Roedd derbynfa'r practis, yr ardal aros, y toiledau a'r ddeintyddfa i gyd ar y llawr daear, ac yn hygyrch i bawb.

Nodwyd gennym fod polisi cydraddoldeb ar waith yn y practis, sy'n dangos ei ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Gan fod y practis yn cynnig cymysgedd o driniaethau'r GIG a thriniaethau preifat, argymhellwn y dylai'r practis ddatblygu trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac y dylai sicrhau bod copi ar gael os ceir cais gan glaf neu unrhyw ddarpar glaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi ei drefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd, a sicrhau bod copi ar gael os ceir cais gan glaf neu unrhyw ddarpar glaf.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod ffurflenni adborth papur ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion wneud sylwadau cadarnhaol am eu profiad neu er mwyn iddynt wneud awgrymiadau o ran sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Dywedwyd wrthym fod sylwadau gan gleifion yn cael eu monitro a'u trafod fel tîm.

Roedd y wybodaeth am y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn cael ei harddangos yn yr ardal aros hefyd. Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i hamlinellu i'r staff mewn polisi cwyno ac roedd yn cydymffurfio â chanllawiau Gweithio i Wella⁴ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Nid oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion ers i'r rheolwr cofrestredig ddechrau yn ei swydd ym mis Hydref 2018.

⁴ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, yn cynnwys adnoddau digonol, ac roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Roedd cleifion yn cael gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf ac roedd y gofal hwnnw wedi'i ddogfennu mewn cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr.

Nodwyd rhai gwelliannau y gellid eu gwneud o ran y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau sydd ar waith yn y practis.

Mae angen symud y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru i leoliad newydd yn y practis er mwyn lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig iddynt.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis ac ymwelwyr â'r practis. Roedd gan y practis bolisiau, gweithdrefnau ac asesiadau risg amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas at y diben.

Roedd y dderbynfa a'r ardal aros yn groesawgar ac yn olau, a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion a gwblhaodd holiadur ynghylch glendid y practis deintyddol.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Gwnaethom sylwi fod socedi trydanol agored ar lefel llawr y ddwy ddeintyddfa. Fel rhan o asesiad risg yn y dyfodol, rydym yn argymhell y dylai'r

practis ystyried y ffordd orau o ddiogelu plant rhag unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â socedi trydanol lefel isel.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân priodol ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Cynhaliwyd asesiad risg tân cynhwysfawr yn ddiweddar ac o ganlyniad, rhoddodd y practis gamau gweithredu adferol dilynol ar waith, gan gynnwys gosod larymau mwg newydd a chreu cofnod electronig i gofnodi profion larymau tân ac ymarferion tân.

Y rheolwr cofrestredig oedd y swyddog diogelwch tân penodedig ond nid oedd wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelwch tân. Argymhellwn y dylai'r swyddog diogelwch tân gael hyfforddiant perthnasol gan arbenigwr diogelwch tân ac yn dilyn hynny, y dylai addysgu'r staff yn y practis am y gweithdrefnau priodol i'w dilyn os bydd tân a sut i nodi peryglon tân posibl.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân ac roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos sy'n atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg⁵. Roedd poster Iechyd a Diogelwch a oedd yn dweud wrth y staff beth roedd angen iddynt ei wneud i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch yn y gweithle yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd y staff yn gallu newid yn yr ystafell staff i fyny'r grisiau ac roedd drws y gellir ei gloi er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod nifer o asesiadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd⁶ (COSHH) wedi'u cynnal ond argymhellwn y dylid datgan yr elfen weithredol beryglus berthnasol yn glir ac y dylid atodi taflenni diogelwch i bob asesiad.

Roedd polisi parhad busnes a strategaeth adfer ar ôl trychineb ar waith ond argymhellwn y dylai'r practis eu datblygu ymhellach er mwyn cynnwys manylion

⁵ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

⁶ Mae Rheoliadau COSHH yn darparu fframwaith ar gyfer amddiffyn pobl yn y gwaith yn erbyn y risgiau iechyd a all ddeillio o weithgareddau gwaith sy'n eu hamlygu i sylweddau peryglus.

cyswllt pob aelod o staff a chontractwyr busnes hanfodol mewn argyfwng er mwyn osgoi dryswch mewn argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r swyddog diogelwch tân penodedig gael hyfforddiant gan arbenigwr diogelwch tân a sicrhau bod staff y practis yn ymwybodol o'r gweithdrefnau priodol i'w dilyn os bydd tân a sut i nodi peryglon tân posibl.

Mae angen i'r practis ddiweddarau ei bolisi parhad busnes er mwyn cynnwys manylion cyswllt pob aelod o staff a chontractwyr busnes hanfodol mewn argyfwng.

Atal a rheoli heintiau

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau addas ar waith a'u bod wedi'u dogfennu mewn polisi rheoli heintiau priodol. Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁷.

Roedd yr ystafell ddihalogi yn fach ond yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a oedd yn defnyddio'r cyfarpar hwnnw wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Roedd blychau storio unigol ar gael ar gyfer storio offer di-haint [glân] ac offer a ddefnyddiwyd [brwnt] ar wahân. Roedd codau lliw ar y blychau ond gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried defnyddio labeli 'glân' a 'brwnt' ar bob blwch perthnasol er mwyn lleihau'r risg y caiff y blwch anghywir ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodlyfr a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar sterileiddio yn gweithredu'n briodol a'i fod wedi bod yn bodloni'r gofynion dilysu.

⁷ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Argymhellwn y dylai'r practis roi'r newidiadau canlynol ar waith i'w broses ddihalogi yn unol â chanllawiau arfer gorau:

- cynnal profion olion protein rheolaidd ar offer a gaiff ei ailbroesu er mwyn asesu'r cyfarpar ar gyfer halogiad ar yr wyneb na ellir ei weld drwy gynnal archwiliad gweledol
- rhoi'r gorau i'r arfer o rinsio offer brwnt yn y ddeintyddfa cyn ei gludo i'r ystafell ddihalogi er mwyn lleihau achosion o groes-heintio.

Gwelsom fod gwastraff peryglus (clinigol) yn cael ei storio'n ddiogel a gwelsom dystiolaeth fod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath yn ddiogel.

Fodd bynnag, er bod y practis yn cynnig cyfleusterau newid babanod, nodwyd gennym nad oedd bin penodol ar wahân ar gael ar gyfer cewynnau. Argymhellwn y dylai'r practis osod bin cewynnau priodol ac y dylai sicrhau y caiff y gwastraff ei waredu'n briodol yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos dystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbynol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis gynnal profion olion protein rheolaidd ar offer a gaiff ei ailbroesu er mwyn asesu'r cyfarpar ar gyfer halogiad ar yr wyneb na ellir ei weld drwy gynnal archwiliad gweledol.

Mae angen i'r practis roi'r gorau i'r arfer o rinsio offer brwnt yn y ddeintyddfa cyn ei gludo i'r ystafell ddihalogi er mwyn lleihau achosion o groes-heintio.

Mae angen i'r practis osod bin cewynnau a sicrhau y caiff y gwastraff ei waredu'n briodol yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Rheoli meddyginiaethau

Wrth gael ein tywys o amgylch y practis, gwelsom fod cyflenwadau deintyddol heb eu defnyddio (meddyginiaethau a chyfarpar) yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yn y coridor. Roedd y cyflenwadau hyn yn cynnwys llafnau rasel sbâr a chetris yn cynnwys anesthetig lleol ac argymhellwn y dylai'r practis osod system gloi ddiogel ar y cwpwrdd er mwyn lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig at ddeunyddiau o'r fath.

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis, ac roeddent yn cydymffurfio i raddau helaeth â safonau'r Cyngor Dadebru (DU)⁸. Gwelsom nad oedd rasel yn cael ei chadw gyda'r cyffuriau a'r cyfarpar brys fel sy'n ofynnol gan y safonau. roedd yn cael ei chadw yn y blwch cymorth cyntaf, ac argymhellwn y dylid symud y rasel i'r blwch cyffuriau brys er mwyn sicrhau ei bod ar gael mewn argyfwng.

Roedd yr holl eitemau wedi'u lleoli yn y coridor y tu allan i'r deintyddfeydd ac yn hawdd i'r staff gael gafael arnynt mewn argyfwng, er enghraifft pe byddai claf yn llewygu. Fodd bynnag, nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad yn aml nad oedd aelodau o staff yn y lleoliad hwn, ac argymhellwn y dylid symud y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru i leoliad yn y practis a fydd yn lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig atynt.

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a'r cyfarpar er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio, a bod y gwiriadau hynny'n cael eu dogfennu. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer dadebru a rheoli argyfyngau meddygol ond rhaid diwygio'r polisi hwnnw i gynnwys y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar gyfer dadebru sy'n anelu at wella'r canlyniadau i gleifion.

Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw unigolion yn y practis y mae angen cymorth cyntaf arnynt yn briodol.

⁸ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn⁹ er mwyn helpu i sicrhau bod cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Nodwyd gennym hefyd fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn lleihau'r risg y gellid cael gafael ar gyffuriau presgripsiwn yn anghyfreithlon a'u camddefnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y cwpwrdd yn y coridor a ddefnyddir i storio cyflenwadau deintyddol yn fwy diogel er mwyn lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig at ddeunyddiau.

Rhaid i'r practis symud ei rasel o'r blwch cymorth cyntaf i'r blwch cyffuriau brys.

Rhaid i'r practis symud y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru i leoliad yn y practis sy'n fwy diogel o ran lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig iddynt ond sy'n parhau'n hygyrch i'r staff mewn argyfwng.

Mae angen i'r practis gynnwys Canllawiau'r Cyngor Dadebru (DU) 2015 i'w bolisi dadebru a rheoli argyfyngau meddygol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt i'r staff roi gwybod yn briodol i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn trafod unrhyw bryderon diogelu gyda'r arweinydd diogelu enwebedig yn y practis yn gyntaf. Nodwyd gennym nad oedd

⁹ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

rhai aelodau o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant diweddar o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi'u hyfforddi'n briodol hyd at lefel 2. Argymhellwn y dylai'r arweinydd diogelu yn y practis ystyried ymgymryd â hyfforddiant diogelu ar lefel uwch o ystyried ei fod yn gyfrifol am roi arweiniad i'r staff ar unrhyw bryderon diogelu.

Nid oedd y staff yn ymwybodol ychwaith o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, sy'n nodi'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles ledled Cymru. Argymhellwn y dylai'r practis drefnu i gopi o'r gweithdrefnau gael ei anfon i'r practis ac y dylai'r staff sicrhau eu bod yn ymgyswrtu â'r cynnwys er mwyn deall y dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â diogelu plant.

Dyweddodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am eiradaon gan gyflogwyr blaenorol a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹⁰ er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas i weithio mewn practis deintyddol yn unol â'r rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel 2 o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Dylai pob aelod o'r staff yn y practis ymgyswrtu â'r canllawiau cenedlaethol o fewn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol yn y ddwy ddeintyddfa wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

¹⁰ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio chwistrellau anaesthetig lleol traddodiadol y gellir eu haildefnyddio. Argymhellwn y dylid cynnal asesiad risg o'r broses hon ac y dylid defnyddio dyfeisiau diogelwch priodol fel giardiau nodwydd er mwyn lliniaru'r risg y ceir anaf damweiniol. Fel arall, gallai'r practis ddefnyddio chwistrellau tafladwy ar gyfer rhoi anaesthetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch i amddiffyn rhag anaf damweiniol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel a chawsom sicrwydd fod y practis yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio
- roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol¹¹ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu
- roedd y cyfarpar pelydr-X wedi'i wasanaethu'n rheolaidd ac roedd lletemau camu¹² wedi'u defnyddio i werthuso perfformiad y cyfarpar pelydr-X a'r system prosesu ffilm
- roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

¹¹ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

¹² Gellir defnyddio lletemau camu fel prawf sicrwydd ansawdd o galibrad cyfarpar pelydr-X a'r broses o fonitro'r system prosesu ffilm a ddefnyddir ym maes radiograffi deintyddol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis gynnal asesiad risg sy'n cynnwys y defnydd o ddyfeisiau diogelwch priodol i liniaru yn erbyn y risg o anaf damweiniol os bydd yn parhau i ddefnyddio chwistrellau y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer rhoi anaestetig lleol neu fel arall, ddefnyddio chwistrellau untro tafladwy ar gyfer rhoi anaestetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y rheolwr cofrestredig wedi bod yn ceisio gwella ansawdd y gofal ers cymryd cyfrifoldeb dros y practis ym mis Hydref 2018. Cyflwynwyd amserlen o archwiliadau rheolaidd er mwyn dadansoddi ansawdd y gofal deintyddol a'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion ac i nodi meysydd i'w gwella. Cynhaliwyd archwiliadau hylendid dwylo, urddas cleifion ac ansawdd delweddau pelydr-X yn ddiweddar.

Dywedwyd wrthym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion o ganlyniad i archwiliadau diweddar, megis sicrhau bod trafodaethau ynghylch p'un a yw cleifion yn gymwys i gael triniaeth ddeintyddol am ddim gan y GIG yn cael eu cynnal â chleifion yn y ddeintyddfa yn hytrach nag wrth ddesg y dderbynfa er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion.

Nodwyd gennym fod archwiliad wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2019 i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar ddihalogi. Argymhellwn y dylid ychwanegu archwiliadau ar ragnodi gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i smygu i'r amserlen o archwiliadau er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir ymhellach.

Argymhellwn y dylid nodi'r gweithgareddau archwilio a ddisgrifiwyd gan y rheolwr cofrestredig mewn polisi ar y trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi ei drefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion ar waith yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion cleifion ar ffurf electronig ac yn cael eu storio ar system gwmwl a dywedwyd wrthym fod copïau wrth gefn yn cael eu gwneud yn rheolaidd oddi ar y safle er mwyn diogelu'r cofnodion pe byddai rhywbeth yn digwydd i'r practis neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Cadw cofnodion

Nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad fod y sampl o gofnodion cleifion a welsom o safon uchel a'u bod yn helpu'r practis i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion. Mae hyn oherwydd bod y cofnodion cleifion a welsom:

- yn glir, yn ddarllenadwy ac yn dogfennu trafodaethau a gafwyd â chleifion am gostau, risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt
- yn cynnwys tystiolaeth bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i gael triniaeth
- yn cynnwys dogfennaeth radiograffi gynhwysfawr yn unol â chanllawiau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)
- yn cynnwys cyfiawnhad wedi'i ddogfennu'n glir o'r rhesymau pam bod pelydrau-X yn cael eu cymryd neu pam nad oeddent yn cael eu cymryd.

Argymhellwn y dylai'r practis gofnodi patrymau traul dannedd (e.e. athreuliad, crafiadau) yng nghofnodion y cleifion er mwyn llywio'r broses o gynllunio triniaeth a'r cyfnodau adalw yn well yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gofnodi patrymau traul dannedd (e.e. athreuliad, crafiadau) yng nghofnodion y cleifion er mwyn llywio'r broses o gynllunio triniaeth a'r cyfnodau adalw yn well.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Nodwyd gennym fod y rheolwr cofrestredig wedi bod yn ymrwymedig i wella'r gofal a ddarperir i gleifion ers cymryd cyfrifoldeb dros y practis y llynedd.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, ond roedd angen llunio mwy o bolisïau er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Penarth Dental Healthcare, ac mae'n gweithredu hefyd fel yr unigolyn cyfrifol¹³ a'r rheolwr cofrestredig¹⁴. Caiff gefnogaeth gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol.

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld

¹³ Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

¹⁴ Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru¹⁵ sy'n annog timau practisau deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Nodwyd gennym drwy gydol yr adroddiad hwn y nifer fach o bolisiâu y mae angen i'r practis eu llunio er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y polisiâu wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau a bod yn rhaid i'r staff lofnodi pob polisi er mwyn dangos eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau fel rheolwr cofrestredig o ran yr hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC o dan y rheoliadau, er enghraifft os ceir anaf difrifol i gleifion.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer, er mwyn i'r cleifion allu hawlio unrhyw iawndal y gallai fod hawl ganddynt iddo.

Nodwyd gennym fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn amddiffyn y practis rhag hawliadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig a bod y practis wedi'i gofrestru'n gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau deintyddol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan y staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau ac

¹⁵ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

roeddent yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Rhoddir rhaglen hyfforddiant sefydlu i aelodau newydd o staff, sy'n dilyn canllawiau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Roedd cyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnig i bob aelod o'r staff a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym y caiff arfarniadau eu cynnal gyda phob aelod o'r staff yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi adborth i'r staff ar eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd ar gyfer DPP.

Cynhelir cyfarfodydd practis o leiaf unwaith y mis er mwyn cynnig cyfle i'r staff nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Cymerir cofnodion o bob cyfarfod ac fe'u hanfonir at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Dyweddwyd wrthym fod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer briodol o staff cymwys yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro. Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio darpar aelodau newydd o staff ac roedd yn cynnwys gwiriadau cyn-cyflogi priodol y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o staff yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu'n addas er mwyn gweithio gyda chleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Penarth Dental Healthcare

Dyddiad arolygu: 01 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Penarth Dental Healthcare

Dyddiad arolygu: 01 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis ddarparu amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig i'r cleifion am y ffordd orau i blant ac oedolion sicrhau hylendid da yn y geg, gan gynnwys taflenni am driniaethau a chyngor ataliol.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safonau 1.1	Rydym wedi archebu cyflenwadau o'r daflen gwybodaeth i gleifion gan yr Oral Health Foundation yn dilyn eich cyngor i addysgu ar iechyd y geg, atal ac egluro gwahanol driniaethau.	Anthony Bannon	Wedi'u harchebu ac yn aros iddynt gyrraedd.
Mae angen i'r practis sicrhau y caiff y paneli gwydr tryloyw yn rhan uchaf y ddau ddrws i'r deintyddfydd eu gorchuddio neu y caiff deunydd nad yw'n dryloyw ei osod yn eu lle.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth	Gorchuddiwyd paneli gwydr y ddeintyddfa â laminiad arlliwedig er mwyn sicrhau na ellir gweld yn syth i mewn o'r coridor er mwyn sicrhau preifatrwydd i gleifion.	Anthony Bannon	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 15(1)			
Mae angen i'r practis sicrhau bod copi o'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael i'r cleifion ar ei wefan.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliadau 5(2) a 6(2)	Rwyf wedi eu lanlwytho i'r wefan er mwyn i gleifion allu cael gafael arnynt yn hawdd	Anthony Bannon	Cwblhawyd
Mae angen i'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi ei drefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd, a sicrhau bod copi ar gael os ceir cais gan glaf neu unrhyw ddarpar glaf.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 8	Mae bellach gennym bolisi sy'n manylu ar hyn ac mae'r polisi ar gael i gleifion yn y dderbynfa	Anthony Bannon	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r swyddog diogelwch tân penodedig gael hyfforddiant gan arbenigwr diogelwch tân a sicrhau bod staff y practis yn ymwybodol o'r gweithdrefnau priodol i'w dilyn os bydd tân a sut i nodi peryglon tân posibl.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth	Rwyf wedi cysylltu â swyddog Hyfforddiant Diogelwch Tân a'r gobaith oedd y byddai'r hyfforddiant wedi'i gwblhau ar 1 Awst ond canslodd Ivofire Safety Services yr hyfforddiant. Caiff ei	Anthony Bannon	Cyn diwedd mis Medi 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifafat (Cymru) 2017 Rheoliad 22(4c)	aidrefnu ac rydym yn aros am ddyddiad newydd gan y trefnwyr		
Mae angen i'r practis ddiweddarau ei bolisi parhad busnes er mwyn cynnwys manylion cyswllt pob aelod o staff a chontractwyr busnes hanfodol mewn argyfwng.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifafat (Cymru) 2017 Rheoliad 8(o)	Rydym wrthi ar hyn o bryd yn llunio rhestr cysylltiadau ac rydym hanner ffordd drwy'r broses. Bydd ar gael i'r staff cyn diwedd mis Medi	Anthony Bannon	Diwedd mis Medi 2019
Mae angen i'r practis gynnal profion olion protein rheolaidd ar offer a gaiff ei ailbrosesu er mwyn asesu'r cyfarpar ar gyfer halogiad ar yr wyneb na ellir ei weld drwy gynnal archwiliad gweledol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifafat (Cymru) 2017 Rheoliad 13 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)	Fe'u cynhelir bob mis ac archebwyd y stribedi profion protein ar ddiwrnod yr arolygiad yn dilyn trafodaeth â thîm arolygu AGIC	Theresa Godwin	Cwblhawyd ac yn parhau.
Mae angen i'r practis roi'r gorau i'r arfer o rinsio offer brwnt yn y ddeintyddfa cyn ei gludo i'r ystafell ddihalogi er mwyn lleihau achosion o groes-heintio.		Rhodddwyd y gorau i'r arfer hwn ar unwaith ac ailhyfforddwyd yr un aelod o'r tîm a oedd yn gwneud hynny ac mae bellach yn gymwys	Theresa Godwin	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i'r practis osod bin cewynnau a sicrhau y caiff y gwastraff ei waredu'n briodol yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.4 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990	Rydym wrthi'n trafod trefniadau gwaredu gwastraff cewynnau ag amrywiol gwmnïau casglu gwastraff ond yn ystyried cael gwared ar y cyfleuster newid oherwydd y dyfynbrisiau eithafol a gafwyd hyd yn hyn gan mai anaml y caiff ei ddefnyddio.	Anthony Bannon	Penderfyniad cyn diwedd mis Medi 2019.
Rhaid i'r practis sicrhau bod y cwpwrdd yn y coridor a ddefnyddir i storio cyflenwadau deintyddol yn fwy diogel er mwyn lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig at ddeunyddiau.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.6 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(4a)	Rydym wrthi'n chwilio am saer celfi i wneud drws newydd ar gyfer y cwpwrdd er mwyn sicrhau mynediad mwy diogel a chyfyngu ar fynediad i'r cyhoedd	Anthony Bannon	Gobeithio y bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019.
Rhaid i'r practis symud ei rasel o'r blwch cymorth cyntaf i'r blwch cyffuriau brys.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 31(3b)	Mae'r rasel bellach wedi'i gosod yn y blwch cymorth cyntaf	Anthony Bannon	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis symud y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru i leoliad yn y practis sy'n fwy diogel o ran lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig iddynt ond sy'n parhau'n hygyrch i'r staff mewn argyfwng.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.6	Caiff y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru bellach eu cadw yn yr LDU gan atal unrhyw fynediad anawdurdodedig	Anthony Bannon	Cwblhawyd
Mae angen i'r practis gynnwys Canllawiau'r Cyngor Dadebru (DU) 2015 i'w bolisi dadebru a rheoli argyfyngau meddygol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 31(1)	Ychwanegwyd y canllawiau newydd hyn at ein polisi dadebru a rheoli argyfyngau meddygol	Anthony Bannon	Cwblhawyd
Mae angen i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel 2 o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.7 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 14	Rydym wedi trefnu diwrnod hyfforddiant i'r tîm ar gyfer diogelu lefel 2 ar 14 Ionawr 2020. Byddaf yn cwblhau cwrs lefel 3 cyn diwedd mis Medi 2019. Trefnwyd hyfforddiant POVA i bob aelod o'r staff ar gyfer 11 Medi 2019.	Anthony Bannon	Trefnwyd y cyrsiau ac mae'r broses yn mynd rhagddi.
Dylai pob aelod o'r staff yn y practis ymgyswrtu â'r canllawiau cenedlaethol o fewn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.		Lawrlwythwyd y canllawiau ar holl gyfrifiaduron personol y practis a gofynnwyd i'r staff ymgyswrtu â nhw yn ystod un o gyfarfodydd y practis	Anthony Bannon	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i'r practis gynnal asesiad risg sy'n cynnwys y defnydd o ddyfeisiau diogelwch priodol i liniaru yn erbyn y risg o anaf damweiniol os bydd yn parhau i ddefnyddio chwistrellau y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer rhoi anaestetig lleol neu fel arall, ddefnyddio chwistrellau untro tafladwy ar gyfer rhoi anaestetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.9	Rydym yn ystyried p'un a ddylid gweithredu hyn, ond ar ôl cael profiad o ddefnyddio'r ddwy system, mae'n well gennyf ddefnyddio giard nodwyddau. Caiff yr asesiadau risg angenrheidiol eu rhoi ar waith.	Anthony Bannon	Wrthi'n cael ei ystyried
Mae angen i'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi ei drefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 3.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 16	Rydym wedi drafftio Matrics Archwilio er mwyn nodi pa archwiliadau a gynhelir gennym a phryd y mae angen eu hailadrodd ac fe'i rhoddwyd ar waith. Mae gennym bolisi Sicrhau Ansawdd hefyd.	Anthony Bannon	Cwblhawyd
Rhaid i'r practis gofnodi patrymau traul dannedd (e.e. athreuliad, crafiadau) yng nghofnodion y cleifion er mwyn llywio'r broses o gynllunio triniaeth a'r cyfnodau adalw yn well.	Canllawiau'r Gyfadran Archwilio Clinigol a Chadw	Rydym wedi cynnwys y canllawiau hyn yn ein nodiadau clinigol ar gyfer archwiliadau cleifion	Anthony Bannon	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Cofnodion ar gyfer Practisau Deintyddol Cyffredinol Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 3.5			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw welliannau ar gyfer yr adran hon.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Anthony Bannon

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 19 Awst 2019